**LC1370**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Gorchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006

Cafodd Deddf Rheoli Traffig 2004 (p.18) ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 22 Gorffennaf 2004. Bydd y Gorchymyn hwn yn cychwyn adrannau 5(4), 5(5) (pwerau arbennig swyddog traffig) ac adran 10 (tramgwyddau) o Ran 1, Rhan 2 yn ei chyfanrwydd (rheoli rhwydweithiau gan awdurdodau traffig lleol), Rhan 6 yn ei chyfanrwydd (gorfodi cosbau sifil am dramgwyddau traffig) ac adrannau 94 (pwer i arolygu bathodynnau glas), 95 (cymhwyso incwm dros ben oddi wrth fannau parcio), 96 (darpariaethau penodol o ran Cymru) a 98 (diddymiadau).

### Rheol Sefydlog 11.7

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

### Sylwadau

Mae'n ymddangos yn rhyfedd cychwyn paragraffau (4) a (5) o adran 5 y Ddeddf, sy'n ymwneud â gweithrediad pwerau y cyfeirir atynt yn gynharach yn yr adran honno mewn paragraffau nad ydynt yn cael eu cychwyn eu hunain. Fodd bynnag, o gychwyn y paragraffau blaenorol hynny o ran Lloegr, bydd yn caniatáu i swyddogion traffig Lloegr arfer y pwerau hynny ar unrhyw ffordd yng Nghymru a Lloegr ar gyfarwyddyd y prif swyddog heddlu lleol neu gyda chydsyniad yr awdurdod traffig ffyrdd. Er nad yw'n gwbl angenrheidiol cychwyn paragraffau (4) a (5) o ran Cymru, felly, mae'n cadarnhau'r sefyllfa. Bydd yn galluogi swyddogion traffig Lloegr i gyfeirio traffig ac i osod arwyddion ffyrdd dros dro yng Nghymru ar gyfarwyddyd Prif Gwnstabl yng Nghymru neu'r

awdurdod priffyrdd perthnasol. Gallai hyn fod yn bwysig pe bai damwain neu dagfeydd yn agos at y ffin.

Tynnwyd sylw’r cyfreithiwr a ddrafftiodd y Gorchymyn at nifer o wallau fformadu a theipograffyddol sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi’r Gorchymyn.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 17 Hydref 2006